# CÔD YMARFER
# HAWL A HAEDDIANT

(Elfen 1.1 o Rhan A y CLG Uwchradd)

Prif Swyddfa : Cwmni CYNNAL · Plas Llanwnda · Stryd y Castell · CAERNARFON · Gwynedd · LL55 1SH
Canolfan Dechnoleg Maesincla: Cwmni CYNNAL · Canolfan Dechnoleg · Maesincla · CAERNARFON · Gwynedd · LL55 1RS
Uned Dechnoleg Llangefni : Cwmni CYNNAL · Stryd y Bont · Llangefni · Ynys Môn · LL77 7HL

# YMWELIADAU HAWL A HAEDDIANT
# CÔD YMARFER

(Elfen 1.1 o Rhan A y CLG Uwchradd)

| | |
|---|---|
| **TREFN** | · Cyfanswm o 5 diwrnod o ymweliadau pynciol.<br>· Cyfanswm o 1 diwrnod o ymweliadau ar agweddau penodol.<br>· Uchafswm o 1.5 diwrnod o ymweliadau ar gyfer unrhyw bwnc.<br>· Cyfanswm o 6 diwrnod o ymweliadau. |
| **AGENDA** | · Yr ysgol sy'n penderfynu ar yr agenda.*<br>· Blaenoriaethau cyffredinol a phynciol wedi eu rhestru ar gefn y daflen briffio i gynorthwyo'r ysgol wrth lunio agenda.<br>· Argymhellion ymweliadau blaenorol i gael eu hystyried.<br><br>* *Gellir defnyddio'r ymweliad ar gyfer HMS ysgol ganolog os derbynnir briff llawn gan yr ysgol o **leiaf 6 wythnos** o flaen llaw. **Noder bod ½ diwrnod o hyfforddiant yn cyfateb i 1 diwrnod o ymweliad.*** |
| **TREFNIADAETH** | · Swyddfa CYNNAL sy'n trefnu'r ymweliad gyda'r Tiwtor Proffesiynol.<br>· Ceisiadau am ymweliadau i'w derbyn ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyda'r hyblygrwydd i gyflwyno ceisiadau ychwanegol ar ddechrau pob tymor.<br>· Anfonir ffurflenni briffio i'r ysgolion yn dymhorol.<br>· Cofnodir yr ymweliadau ar Safle Cynhaliaeth CYNNAL.<br>· Taflenni briffio manwl i'w cyflwyno 6 wythnos o flaen llaw. |
| **YR YMWELIAD** | · Ar gychwyn yr ymweliad dylai'r ymgynghorydd gadarnhau pwrpas yr ymweliad gyda'r pennaeth/aelod cyswllt o'r UDRh.<br>· Cedwir cofnodion o'r ymweliadau a chyflwynir adroddiad llafar i'r Pennaeth/aelod cyswllt o'r UDRh cyn gadael yr ysgol. |
| **ADRODDIAD AR YMWELIAD** | · Dylai'r adroddiad ysgrifenedig:<br>– grynhoi'r ymweliad;<br>– nodi argymhellion, gan gynnwys amserlen, os yn briodol;<br>– awgrymu ymweliad dilynol, os yn briodol;<br>– gael ei gosod ar safwe CYNNAL o fewn mis i'r ymweliad. |
| **DILYNIANT** | · Cyfrifoldeb yr ysgol yw monitro dilyniant i'r ymweliad.<br>· Cyfrifoldeb yr ymgynghorydd yw gwireddu unrhyw addewidion a wnaethpwyd ganddi/ganddo o fewn yr amserlen briodol.<br>· Os yw'r dilyniant yn cynnwys ail ymweliad gellir cytuno ar y trefniadau ar ddiwedd yr ymweliad cyntaf ond er hynny bydd angen i'r ysgol gwblhau'r ddogfennaeth arferol. |
| **PWYNTIAU YCHWANEGOL** | · Y nod yw sicrhau bod ymweliadau hawl a haeddiant yn cyfrannu at weithrediad Cynllun Datblygu Ysgol ac yn ymgorffori elfen o hunan arfarnu.<br>· Mae angen sicrhau hyblygrwydd oherwydd yr amrywiaeth sylweddol iawn yn natur yr ymweliadau. |

Prif Swyddfa : Cwmni CYNNAL · Plas Llanwnda · Stryd y Castell · CAERNARFON · Gwynedd · LL55 1SH
Canolfan Dechnoleg Maesincla: Cwmni CYNNAL · Canolfan Dechnoleg · Maesincla · CAERNARFON · Gwynedd · LL55 1RS
Uned Dechnoleg Llangefni : Cwmni CYNNAL · Stryd y Bont · Llangefni · Ynys Môn · LL77 7HL